‘PEIDIWCH Â DAL YN ÔL’

Pontio i oedolaeth yn achos pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu

# ‘Paid dal yn ôl’: Pontio i oedolaeth ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu

## Crynodeb o’r adroddiad gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

**y gyfraith**





Mae hawliau dynol pobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael eu diogelu gan gonfensiynau’r Cenhedloedd Unedig a deddfau yng Nghymru.

Mae hynny’n golygu bod cyfreithiau i wneud yn siŵr bod pobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael eu hamddiffyn, eu cefnogi, a bod pobl yn gwrando arnyn nhw.

Mae’r cyfreithiau hyn yn methu rhoi’r help cywir i lawer o bobl ifanc ag anableddau dysgu wrth iddyn nhw dyfu’n oedolion.


**cymryd rhan**




Mae pobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael y gefnogaeth gywir pan fyddan nhw’n rhan o benderfyniadau am eu dyfodol. Mae hefyd yn helpu os oes ganddyn nhw un person proffesiynol neu weithiwr allweddol sy’n eu cefnogi i wneud penderfyniadau.

## Beth wnaethon ni i ddysgu am brofiadau pobl ifanc ag anabledd dysgu wrth iddyn nhw dyfu’n oedolion?

**llyfrau**




Gofynnon ni i Brifysgol Edge Hill edrych ar yr holl waith ymchwil sydd wedi’i wneud am y pwnc yn barod.
Daethon nhw o hyd i 58 astudiaeth ymchwil wahanol oedd wedi edrych ar y pwnc yma.
Ysgrifennon nhw adroddiad i ni am yr holl bethau oedd yn gyffredin rhyngddyn nhw.


**ymchwil**




Gofynnon ni i C.A.R.P. Collaborations wneud gwaith ymchwil.
Cwrddon nhw â 99 o bobl ifanc ag anableddau dysgu.
Gofynnon nhw i 187 o rieni a gofalwyr ateb holiadur.
Siaradon nhw â 43 o weithwyr proffesiynol a 6 elusen genedlaethol.
Ysgrifennon nhw adroddiad oedd yn dweud beth ddysgon nhw.

1. **Dysgon ni a oedd pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu dyfodol.**

**cynlluniau**




Mae cynlluniau pontio yn helpu pobl ifanc ag anabledd dysgu i gynllunio ar gyfer tyfu’n oedolion. Dim ond ychydig o bobl ifanc oedd yn gwybod am eu cynllun pontio.
Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn meddwl bod cynllun pontio ar gyfer symud o’r ysgol i’r coleg. Doedden nhw ddim yn gwybod bod e’n gallu cynnwys pethau eraill fel cadw ffrindiau neu gael gweithiwr cymorth personol.

**cyfarfod**




Dywedodd y rhan fwyaf o’r bobl ifanc eu bod nhw heb gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu cymorth yn yr ysgol. Dywedodd y rhan fwyaf ohonyn nhw eu bod nhw heb gael eu cynnwys mewn adolygiadau gwaith cymdeithasol.

**bod yn rhan o benderfyniadau**




Mae hynny’n golygu bod y rhan fwyaf o bobl ifanc ag anableddau dysgu ddim yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu dyfodol. Dyw pobl ddim yn gwrando arnyn nhw.

## 2. Dysgon ni am fywyd y teulu

**gofalwr**





Mae gan rieni pobl ifanc ag anabledd dysgu gyfrifoldebau gofalu.
Maen nhw’n cydbwyso cefnogi eu plentyn i dyfu’n oedolyn a dal i ymateb i anghenion gofal. Roedd nifer bach o rieni wedi gorfod stopio gweithio oherwydd eu bod nhw’n gofalu am eu plentyn. Roedd hynny’n golygu bod gan y teulu lai o arian i fyw arno.

**paratoi ar gyfer cyfarfod**




Mae rhaid i rai rhieni baratoi ar gyfer cyfarfodydd a gwneud apwyntiadau gyda gwahanol wasanaethau. Roedd rhai yn cael trafferth sicrhau bod gwahanol wasanaethau’n siarad â’i gilydd.
Mae’r anawsterau yma yn gallu gwneud rhieni’n bryderus iawn, ac effeithio ar eu hiechyd meddwl.


**pontio**




Mae’r rhan fwyaf o rieni’n gefnogol iawn i’w plant. Os yw pobl ifanc yn gallu bod yn rhan o’u cynlluniau ar gyfer y dyfodol, maen nhw’n aml yn cael profiad pontio da wrth dyfu’n oedolion.

## 3. Dysgon ni am y cymorth mae teuluoedd yn cael a beth arall maen nhw eisiau.

**teulu**




Mae rhieni a phobl ifanc yn cael y rhan fwyaf o’u help gan aelodau o’u teulu.
Mae rhai teuluoedd hefyd yn cael help gan weithwyr allweddol ac athrawon mewn ysgolion a cholegau.




Roedd pobl ifanc eisiau help gyda phethau ymarferol.
Roedd hyn yn cynnwys help i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, help i lenwi ffurflenni ar gyfer swyddi a help i ddeall materion ariannol.


**siarad am ofalwyr**




Roedd rhieni eisiau help gyda’u rôl ofalu. Sonion nhw fod angen cael egwyl o fod yn ofalwr a chael cyngor gwell. Mae angen cymorth hyblyg ar rieni; rhaid iddo ffitio o gwmpas bywyd y teulu a gwaith.


4. **Dysgon ni am y gwasanaethau mae teuluoedd yn defnyddio.**

**profion iechyd**




Dywedodd hanner y teuluoedd oedd yn defnyddio gwasanaethau iechyd arbenigol fod penderfyniadau’n cael eu gwneud yn rhy araf. Roedd pobl ifanc mewn ysgol breswyl yn wynebu nifer o broblemau i gael apwyntiadau a help gan y  gwasanaethau iechyd.

**coleg**





Roedd y rhan fwyaf o rieni’n pryderu am geisio cael lle addas yn y coleg i’w plentyn. Roedd cael lle yn y coleg yn arbennig o anodd i bobl ifanc oedd ag anghenion cefnogi uchel.

**asesu**




Roedd gwasanaethau plant yn defnyddio asesiadau gwahanol i wasanaethau oedolion. Roedd hynny’n golygu bod pobl ifanc yn aml yn stopio cael yr help roedden nhw ei angen wrth gyrraedd oed penodol.

**penderfyniadau**




Mae tyfu’n oedolyn yn brofiad cymhleth oherwydd bod penderfyniadau’n digwydd yn rhy araf. Dyw penderfyniadau ddim yn hyblyg ac maen nhw’n gallu dibynnu ar faint mae pethau’n costio.

## 5. Dysgon ni gan deuluoedd am y gwahanol wasanaethau yng Nghymru

**cymuned**





Mae llawer o wahaniaethau rhwng gwasanaethau yng Nghymru. Mae’r help rydych chi’n cael yn dibynnu ar y gymuned a’r ardal lle rydych chi’n byw.

**cyfathrebu**




Soniodd gweithwyr proffesiynol a theuluoedd am broblemau gyda gwasanaethau. Sonion nhw am wasanaethau oedd ddim yn cyfathrebu’n dda a phenderfyniadau oedd yn cael eu gwneud yn rhy hwyr. Teimlai teuluoedd fod addysg ddim yn paratoi pobl ifanc i fyw’n annibynnol fel oedolion.

**person-ganolog**




Soniodd gweithwyr proffesiynol a theuluoedd am beth oedd yn gweithio mewn gwasanaethau. Dywedon nhw fod y cymorth gorau’n digwydd pan fydd staff yn canolbwyntio ar y person ac yn gwrando ar y person ifanc. Mae’n gweithio’n dda os bydd un person yn helpu teuluoedd gyda’r newidiadau sy’n digwydd wrth dyfu’n oedolyn.


## 6. Dysgon ni am ffrindiau a bywydau cymdeithasol

**dim ffrindiau**




Dywedodd pobl ifanc mai ffrindiau oedd y peth pwysicaf yn eu bywydau. Ond roedd llawer o bobl ifanc wedi ynysu, heb lawer o ffrindiau.
Roedd pobl ifanc yn treulio llawer o amser yn cymdeithasu gyda’u teulu.

**trafnidiaeth**




Roedd rhai gwasanaethau’n helpu pobl ifanc i gadw ffrindiau trwy ddysgu nhw sut i gadw mewn cysylltiad. Roedden nhw hefyd yn eu helpu i ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Doedd y rhan fwyaf o’r bobl ifanc ddim yn defnyddio cludiant cyhoeddus ar eu pen eu hun oherwydd bod hynny’n anodd iddyn nhw. Roedd hynny’n golygu eu bod nhw’n methu mynd allan a gweld ffrindiau.

**bwlio**




Roedd pobl ifanc a rhieni’n poeni am faint o fwlio mae pobl ag anableddau dysgu yn ei wynebu.

## 7. Dysgon ni am obeithion i’r dyfodol

**gweithlu**




Roedd cael gwaith yn bwysig iawn i bobl ifanc. Roedd pobl ifanc yn wynebu llawer o rwystrau wrth geisio cael gwaith am dâl.
Roedd rhai o’r rhwystrau hyn yn ymwneud â chael y cymwysterau iawn. Roedd eraill yn ymwneud â chael yr help a’r cyngor cywir wrth chwilio am waith.

**bywydau llawn**




Dywedodd y bobl ifanc mai ail ran bwysicaf bywyd wrth dyfu’n oedolyn oedd bod â phethau i’w gwneud a bywyd llawn.
Wnaeth y rhan fwyaf o’r gweithwyr proffesiynol ddim sôn am hyn.


## Beth wyf fi’n meddwl sydd angen newid?

**heriau**




Mae pobl ifanc ag anableddau dysgu a’u teuluoedd yn wynebu llawer o heriau a rhwystrau wrth dyfu’n oedolion. Byddai’r heriau yma’n gwella petai pobl yn cadw at y cyfreithiau sydd gennym ni’n barod.

**dweud eich dweud**





Byddai’r heriau’n cael eu gwella hefyd petai pobl ifanc yn cael mwy o gyfle i ddweud eu dweud am gynlluniau ar gyfer eu dyfodol. Mae yna gyfreithiau sy’n cefnogi pobl ifanc i fod yn rhan o’r cynllunio ar gyfer eu dyfodol.

**cyngor i deuluoedd**




Mae angen gwell cefnogaeth ar rieni a gofalwyr. Mae angen gwell gwybodaeth arnyn nhw am yr opsiynau sydd ar gael i bobl ifanc sy’n tyfu’n oedolion.


**cael eu cynnwys**




Mae gan bobl ifanc ag anableddau dysgu hawliau cyfartal. Mae arnyn nhw angen i bob rhan o’r Llywodraeth gydweithio er mwyn iddyn nhw fod yn ddinasyddion cyfartal. Rhaid i hynny gynnwys mwy o gyfleoedd mewn cyflogaeth am dâl.


**Fel Comisiynydd Plant Cymru, bydda i’n gwneud hyn:**

**monitro**





Bydda i’n monitro rhaglen newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella bywyd i bobl ag anableddau dysgu. Enw’r rhaglen yw ‘Gwella Bywydau’.

**gweithio mewn partneriaeth**




Bydda i’n adolygu adroddiadau blynyddol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae’r rhain yn sefydliadau cynghorau lleol sy’n gyfrifol am sicrhau bod gwasanaethau’n cydweithio.

**gofyn**




Bydda i’n eich holi am eich profiad. Bydda i’n gwrando ar bobl ifanc a’u teuluoedd i weld ydy eu profiadau’n gwella.

**cynlluniau**




Bydda i’n gofyn i Lywodraeth Cymru wella’r trefniadau cynllunio ar gyfer pobl ifanc sy’n tyfu’n oedolion. Bydda i’n gofyn am gynnwys pontio yn y rhaglen ‘Gwella Bywydau’.